# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

**Rhif 7: Awst 2025**

## Croeso

Dyma ein seithfed cylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**



*Harbwr Aberaeron – Andrew Chittock*

Mae BAM yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

## Diweddariad Rheolwr y Prosiect

Mae'n falch gen i ddweud bod prosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron wedi cyrraedd y cam olaf erbyn hyn ar ôl 19 mis o waith adeiladu a gwella sy'n ceisio amddiffyn y dref rhag llifogydd arfordirol.

Rydym wrthi'n gorffen y gwaith sy'n cynnwys ailagor llwybr yr arfordir, tirlunio a chwblhau teras Pwll Cam, a disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn yr wythnosau nesaf.

Hoffwn i achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r trigolion a'r busnesau am eu hamynedd a'u cymorth parhaus trwy gydol y prosiect.

**Andrew Pointon-Bell, BAM**

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Wedi cwblhau Morglawdd y Gogledd a'r rhodfa goncrit
- Wedi cwblhau strwythur concrit pen Pier De
- Wedi cwblhau wal gynnal gerrig Traeth y De, ailgyflenwi'r traeth a symud y llwybr mynediad halio
- Wedi cwblhau wal afon Aeron a'r paneli gwydr y tu flaen i Toad Hall a'r Seler
- Adeiladu'r waliau newydd a'r gât llifogydd ger y bont bren gyferbyn â'r Seler
- Adeiladu'r teras grisiog i harbwr mewnol Pwll Cam gan gynnwys mynediad ramp
- Wedi gosod a chomisiynu'r gât harbwr mewnol newydd
- Wedi cwblhau gorffeniad gwaith cerrig waliau'r gât harbwr mewnol
- Wedi cwblhau rhodfa goncrit promenâd Pen Cei a chomisiynu'r pedwar gât llifogydd newydd

Cyngor Sir Ceredigion County Council
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru / Part Funded by Welsh Government
bam
AtkinsRéalis
Considerate Constructors Scheme

## Gwaith sydd ar ôl i'w gwblhau ym mis Awst

- Cwblhau gwaith adfer cerrig ar Bier y De
- Cwblhau'r gwaith o dacluso cyffredinol ar Draeth y De, clirio'r mannau gwaith a gwaith paratoi ar gyfer ailagor Llwybr Arfordir y De
- Cwblhau gosod sêl ar Forglawdd y Gogledd a Phen Cei, gosod falfiau fflap, cwblhau rhoi wyneb asffalt, clirio mannau gwaith, a pharatoi ar gyfer agor y mannau hyn
- Cwblhau gwaith tirlunio caled yn ardal Teras Pwll Cam, i'w ddilyn gan osod wyneb asffalt a gweadu
- Gosod colofnau goleuo a goleuadau palmentydd i ardal Teras Pwll Cam
- Symud ac adfer compownd swyddfa'r contractwr

## Rheoli traffig a cherddwyr

Wrth i'n prosiect amddiffyn rhag llifogydd ddod i ben, mae'n rhaid i rai mesurau rheoli cerddwyr barhau yn eu lle hyd nes bod y project wedi'i gwblhau ac yn cael ei drosglwyddo'n ôl yn swyddogol i Gyngor Sir Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwyriad llwybr yr arfordir trwy Aberaeron
- Mynediad i Draeth y De
- Y bont droed bren i gerddwyr ar draws afon Aeron

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### BAM yn clirio Traeth y De cyn ei ailagor

Treuliodd aelodau o'r tîm amser yn symud darnau mân a sbwriel o Draeth y De i helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn lân cyn ei ailagor.





### BAM yn camu i'r bwlch ac yn llenwi tyllau ar hyd llwybr Parkrun Aberaeron i Lanerchaeron

Cysylltodd disgybl o Ysgol Gyfun Aberaeron â BAM i ofyn am help i lenwi'r tyllau ar hyd llwybr Parkrun Llanerchaeron. Gwnaeth BAM ymateb trwy anfon tîm i drwsio'r darnau a effeithir ar y naill ben o'r llwybr.



### Sefydliad y Merched Aberaeron

Roedd Sefydliad y Merched Aberaeron wedi gwahodd Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM i'w gyfarfod ym mis Mehefin i roi diweddariad ar brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron.



### Ysgol Gynradd Llanon



Daeth disgyblion o Ysgol Gynradd Llanon i ymweld â Harbwr Aberaeron yn ddiweddar i ddysgu am y prosiect Amddiffyn yr Arfordir. Fel rhan o'r ymweliad ysgol, cafodd y plant eu gwahodd i ddylunio poster diogelwch adeiladu. Roedd yr her wedi annog y disgyblion i dynnu sylw at beryglon safleoedd adeiladu. Cafodd yr enillwyr set celf gan BAM.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### LLYSGENHADON STEM BAM

Mae Llysgenhadon STEM BAM yn parhau i gwrdd â myfyrwyr lleol i roi cipolwg gwerthfawr ar y maes Peirianneg Sifil a dysgu am brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

Yn ystod ymweliad safle, esboniodd y llysgenhadon sut mae'r amddiffynfeydd môr newydd wedi'u cynllunio i amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd.  Dangoswyd sut mae nodweddion fel arfwisg gerrig, waliau môr, a strwythurau gwasgaru tonnau yn cydweithio i ddiogelu'r dref.

Ers ein cylchlythyr diwethaf ym mis Chwefror rydym wedi ymgysylltu â'r canlynol:

» Ysgol Uwchradd Bro Pedr
» Ysgol Gynradd Llanon
» Ysgol Gyfun Aberaeron



> *"Diolch yn fawr am drefnu'r ymweliad ar gyfer yr Adran Ddaearyddiaeth ddydd Iau diwethaf. Diolch yn arbennig i Tony  Piddock am roi cyflwyniad ar gynllun amddiffyn yr arfordir ac am ein tywys o gwmpas yr harbwr. Roedd yr adborth gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn ac roedden nhw'n teimlo eu bod nhw wedi dysgu cymaint am y cynllun."*
>
> Pennaeth Daearyddiaeth,
> sgol Y Gyfun Aberaeron

## Oriel Adeiladu

Lluniau cyn ac wedyn Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron:





Harbwr Aberaeron

*Lluniau Andrew Chittock*

*Lluniau Andrew Chittock*





Traeth y De

## Oriel Adeiladu





Teras Pwll Cam



Teras Pwll Cam



Harbwr Pwll Cam

*Lluniau Andrew Chittock*





Afon Aeron





Pier y De



## Oriel Adeiladu




### Mynedfa Pwll Cam

### Pen Cei



*Lluniau Andrew Chittock*



*Lluniau Andrew Chittock*



*Lluniau Andrew Chittock*



# EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

# EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## BAM ydym ni

Rydym yn dychmygu, yn creu ac yn cyfoethogi adeiladau a seilwaith ar draws y DU ac Iwerddon. Ers dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi ymrwymo i wella bywydau trwy greu amgylcheddau a chymunedau cynaliadwy lle y gall pobl fyw, gweithio a ffynnu.

Ein gweledigaeth yw adeiladu dyfodol cynaliadwy. Dyna pam rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i'r adeiladu ac yn canolbwyntio ar yr effaith fwy. Dyma sut rydym yn gwneud yr adeiladau a'r seilwaith eiconig sy'n llunio ein cymdeithas.

Yn ein hymgais diflino i wella, rydym yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatgloi'r hyn sy'n bosibl, gyda'n gilydd. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mewn gweithredu, nid geiriau.

A dyna pam rydym ar genhadaeth i'w gwneud yn bosibl.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799** **Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM:

Sganiwch yma

